# Atebion i'r sefyllfa o ran sgiliau:
## Sbarduno twf drwy brentisiaethau'n ymwneud â ffiseg



iop.org

IOP Institute of Physics

**Nawr yw'r adeg i bennu llwybr ar gyfer twf economaidd. Gall prentisiaethau'n ymwneud â ffiseg fod yn un o'r atebion – os gwnawn ni ryddhau eu potensial.**

Mae'r Sefydliad Ffiseg wedi comisiynu adroddiad – y cyntaf o'i fath – sy'n seiliedig ar gyfweliadau â phrentisiaid, eu cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ar draws y DU ac Iwerddon, er mwyn egluro'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau'n ymwneud â ffiseg. Gan ddefnyddio'r adroddiad hwn fel man cychwyn, bydd y Sefydliad Ffiseg yn cynnal sgyrsiau cenedlaethol a rhanbarthol â chyflogwyr, addysgwyr a llywodraethau er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r heriau, datblygu polisi effeithiol a chynorthwyo i lunio ymyriadau mwy penodol yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

**Mae prentisiaethau'n ymwneud â ffiseg mewn sefyllfa unigryw i fynd i'r afael â'r bwlch o ran sgiliau, ond mae angen atebion beiddgar.**

Gall prentisiaid weithio yn rheng flaen yr economi newydd, o'r diwydiant ynni gwyrdd a'r diwydiant ynni niwclear i beirianneg drydanol, y sector adeiladu a'r sector digidol – ac mae eu hangen yno. Mae prentisiaethau'n ateb hyfyw: fel rheol, nid oes angen gradd i gyflawni dros 1 filiwn [>50%] o swyddi sy'n ymwneud â ffiseg.

Ond nid yw hynny'n hysbys i raddau helaeth ymhlith pobl ifanc sy'n ystyried eu hopsiynau ar ôl troi'n 16 oed neu ymhlith y sawl sy'n dylanwadu ar eu penderfyniadau. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn – a ategir gan yr heriau sy'n wynebu cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ym maes prentisiaethau yn y DU ac Iwerddon – yn golygu nad oes digon o bobl ifanc yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'r llwybr hwn y mae angen mawr amdano ac sy'n rhoi llawer o foddhad.

Gall y sefyllfa hon newid. Mae'n galonogol bod data yn dangos bod nifer y bobl a ddechreuodd ar brentisiaethau'n ymwneud â ffiseg wedi cynyddu yn 2021 yn Lloegr a'r Alban (lle mae data ar gael). Ond nid yw hynny'n ddigon mewn sefyllfa lle ceir prinder sgiliau difrifol, ac mae nifer y bobl sy'n mynd ymlaen i orffen eu prentisiaeth yn bryderus o fach.

**'...mae dau o bob tri busnes sy'n ymwneud â ffiseg wedi gorfod rhoi'r gorau dros dro i waith arloesi ac i waith ymchwil a datblygu rhwng 2016 a 2021, neu wedi gorfod eu gohirio, oherwydd diffyg gweithwyr sydd â'r sgiliau gofynnol.'**

## Mae prentisiaethau’n ymwneud â ffiseg yn cynnig llwybr at dwf economaidd ac at yrfaoedd sy’n rhoi llawer o foddhad i bobl ifanc o bob cefndir.

Mae gwledydd ledled y byd yn mynd i’r afael â galwadau’r economi ddiwydiannol a thechnolegol newydd: sut mae gwella sgiliau’r gweithlu presennol a gweithlu’r dyfodol, sbarduno arloesi, hybu cynhyrchiant a sicrhau bod gan bobl ifanc y wybodaeth a’r sgiliau angenrheidiol i wella eu cyfleoedd mewn bywyd yn ystod y degawdau sydd i ddod.

Nid yw cael ein gadael ar ôl yn y ras fyd-eang yn opsiwn – ond mae perygl y bydd hynny’n digwydd os na allwn fynd i’r afael ar fyrder â’r bwlch o ran sgiliau technegol. Mae’r broblem yn arbennig o ddifrifol yn achos swyddi sy’n gofyn am sgiliau’n ymwneud â ffiseg, ac mae’n broblem sy’n atal ein busnesau rhag datblygu.

Mae sgiliau’n ymwneud â ffiseg o gymorth i gyflawni bron 2 filiwn o swyddi – ond mae dau o bob tri busnes sy’n ymwneud â ffiseg wedi gorfod rhoi’r gorau dros dro i waith arloesi ac i waith ymchwil a datblygu rhwng 2016 a 2021, neu wedi gorfod eu gohirio, oherwydd diffyg gweithwyr sydd â’r sgiliau gofynnol. Yn y cyfamser, rydym wedi canfod yn ddiweddar ei bod yn dal yn anodd llenwi bron 9,000 o swyddi sy’n ymwneud â ffiseg.

## Er mwyn gwireddu gwir botensial prentisiaethau’n ymwneud â ffiseg, mae angen i ni weithio mewn partneriaeth.

Mae’r Sefydliad Ffiseg yn galw ar lywodraethau, darparwyr addysg a hyfforddiant, a chyflogwyr i weithredu’n awr i adfywio prentisiaethau’n ymwneud â ffiseg a’r ecosystemau sy’n sail iddynt. Gallai camau gweithredu cydlynus i fynd i’r afael â’r problemau a nodir yn yr adroddiad hwn ddatgloi cyfleoedd a allai drawsnewid bywydau cenhedlaeth o bobl ifanc a phobl sy’n diweddaru eu sgiliau, a sicrhau sgiliau hanfodol ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol yn y DU ac Iwerddon. Mae’r adroddiad hwn yn lansio cyfres o sgyrsiau hollbwysig a fydd yn ceisio dod o hyd i atebion.



**‘Nid yw cael ein gadael ar ôl yn y ras fyd-eang yn opsiwn’**



# Prif ganfyddiadau

## Rhaid clywed barn cyflogwyr

## Rhaid diwallu anghenion lleol

## Mae pwysau ariannol yn creu rhwystrau

## Mae amrywiaeth yn waith sydd ar y gweill

## Rhaid clywed barn cyflogwyr

Wrth i ni fynd i'r afael â'r bwlch o ran sgiliau sy'n wynebu ein heconomi, clywsom gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant sy'n ymwneud â ffiseg:

- Bod cyflogwyr yn wynebu dwy her, sef gweithlu sy'n heneiddio a diffyg gweithlu medrus i wireddu dyheadau sy'n gysylltiedig ag economi werdd. Eto i gyd, nid yw barn cyflogwyr yn cael ei chlywed yn ddigonol wrth lunio cynnwys y prentisiaethau a ddarperir ac wrth gynorthwyo darparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r cynnwys hwnnw. Byddai ymgysylltu gwell yn cryfhau gwerth prentisiaethau i gyflogwyr ac yn ysgogi cynnydd mewn cyflogaeth.
- Mae cyflogwyr prentisiaid yn pryderu am y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau. Gwelwyd bod hynny'n rhwystro ymgysylltu gan fusnesau bach a chanolig yn benodol, er mai dyma'r busnesau sydd mewn sefyllfa dda'n aml i gynnig profiad o safon yn y gweithle.
- Gan gyfeirio at gyflogau isel yn y sector, dywedodd darparwyr hyfforddiant wrthym hefyd fod yna brinder addysgwyr medrus i gyflwyno prentisiaethau'n ymwneud â ffiseg, sy'n rhwystro'r gallu i ddiwallu anghenion lleol.

## Rhaid diwallu anghenion lleol

Yn aml mae diwydiannau'n ymwneud â ffiseg, a allai dyfu yn y dyfodol, er enghraifft diwydiannau ym maes ynni gwyrdd a thechnoleg, wedi'u canoli mewn ardaloedd penodol. Felly, wrth edrych ar fylchau o ran sgiliau ar lefel diwydiant, rhaid ystyried y cyfan o safbwynt lle.


- Caiff opsiynau o ran prentisiaethau eu hysgogi i raddau helaeth gan anghenion diwydiannau lleol. Eto i gyd, mae'n ymddangos nad oes gan bobl ifanc ddigon o gysylltiad â chyflogwyr lleol i ddeall eu bod yn cynnig cyfleoedd hyfyw a gwerthfawr o ran addysg a gyrfa.
- Mae'r graddau y caiff prentisiaethau'n ymwneud â ffiseg eu cwblhau yn amrywio'n fawr ar draws gwahanol wledydd. Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gwnaeth dros bedwar o bob deg prentis ffiseg roi'r gorau iddi yn 2020/2021 (41% yn Lloegr a 45% yng Ngogledd Iwerddon), ond rhoddodd llai nag 20% y gorau iddi yn yr Alban.



## Mae pwysau ariannol yn creu rhwystrau

Er y ceir tystiolaeth i ddangos bod swyddi sy’n gofyn am sgiliau ffiseg a sgiliau’n ymwneud â ffiseg yn talu’n eithaf da, nid yw hynny’n gymhelliant ystyrlon os na chaiff ei ystyried wrth bwyso a mesur cost llwybrau prentisiaethau. Dywedodd prentisiaid wrthym:

- Bod gan dros eu chwarter (26%) broblemau ariannol sy’n ymwneud â’u prentisiaeth, neu’u bod yn disgwyl cael problemau o’r fath, a’u bod yn gwybod y gallai opsiynau eraill o ran cyflogaeth fod yn talu’n well. At hynny, roedd cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn gweld bod chwyddiant yn ychwanegu pwysau.
- Eu bod wedi ymrwymo i’w gwaith dysgu ac i’w cyflogwyr ond eu bod yn wynebu heriau ymarferol. Mae dros un o bob tri yn ein sampl yn pryderu am gludiant i weithle eu cyflogwr, ac roedd 34% ohonynt yn gorfod teithio dros 20 milltir i gyrraedd eu darparwr hyfforddiant – ac yn gorfod ymdopi hefyd â seilwaith gwael o ran trafnidiaeth a diffyg tai fforddiadwy yn lleol.



## Mae amrywiaeth yn waith sydd ar y gweill

Er bod gan rai cyflogwyr sy’n ymwneud â ffiseg dargedau recriwtio ar gyfer amrywiaeth, maent yn dal i bryderu am yr amrywiaeth sy’n perthyn i garfanau prentisiaethau’n ymwneud â ffiseg.

Er mawr syndod, yn 2021/22, dim ond ychydig dros un o bob pum prentis newydd ym maes ffiseg yn Lloegr oedd yn fenywod (21%). Yng Nghymru dim ond 6% o brentisiaid newydd oedd yn fenywod, ac yn yr Alban dim ond 4%. Dywedodd cyflogwyr prentisiaid a darparwyr hyfforddiant wrthym:


- Fod stereoteipiau ynghylch bod prentisiaethau’n arwain at swyddi ‘statws isel’ yn gwaethygu stereoteipiau ehangach ynghylch pwy all astudio ffiseg, yn ogystal â diffyg dealltwriaeth am yr ystod eang o yrfaoedd y gall ffiseg arwain atynt. Mae’r camsyniadau hyn yn ymsefydlu pan fydd pobl yn ifanc iawn, a gyda’i gilydd maent yn ffactorau sylweddol sy’n atal pobl o grwpiau na chânt eu cynrychioli’n ddigonol rhag astudio ffiseg.
- At hynny, gwelwyd bod athrawon ysgol a rhieni/gofalwyr, y gwyddys eu bod yn chwarae rôl bwysig o safbwynt dylanwadu ar ganfyddiadau, yn cymell prifysgol fel llwybr mwy gwerthfawr y mae mwy o fri yn perthyn iddo, ac mae ysgolion hefyd yn cael cymhellion ariannol i hyrwyddo llwybrau academaidd traddodiadol yn hytrach na llwybrau astudiaethau technegol ôl-16.
- I gymhlethu pethau, mae data annigonol am nifer y bobl sy’n dechrau prentisiaethau’n ymwneud â ffiseg, sy’n gwneud cynnydd boddhaol ac sy’n eu cwblhau, yn enwedig o safbwynt nodweddion amrywiaeth, yn golygu ei bod yn anodd llunio ymyriadau systemig ar gyfer grwpiau na chânt eu cynrychioli a’u gwasanaethu’n ddigonol.

**‘Mae stereoteipiau ynghylch prentisiaethau’n gwaethygu stereoteipiau ynghylch pwy all astudio ffiseg, a diffyg dealltwriaeth am yr ystod eang o yrfaoedd y gall ffiseg arwain atynt.’**



# Gweithredu

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod angen gweithio mewn partneriaeth i hybu'r nifer sy'n ymgymryd â phrentisiaethau'n ymwneud â ffiseg a hybu gwerth prentisiaethau o'r fath – ac o ganlyniad llenwi'r bylchau o ran sgiliau. Mae gan lywodraethau, darparwyr addysg a hyfforddiant, cyflogwyr a'r gymuned ffiseg i gyd ran i'w chwarae.



## Llywodraethau'r DU ac Iwerddon

Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws y maes prentisiaethau, mae gan lywodraethau gyfle i fynd i'r afael â phroblemau systemig sy'n atal twf prentisiaethau STEM yn gyffredinol a chyfle i weithio tuag at sicrhau bod prentisiaethau'n wirioneddol yn cael yr un bri â llwybrau eraill. Mae cyfleoedd yn debygol o gynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod trawstoriad eang a gwirioneddol gynrychioliadol o ddiwydiant yn ymwneud â'r gwaith o lunio prentisiaethau er budd economïau cenedlaethol a rhanbarthol, a bod pwyslais penodol yn cael ei roi ar gymryd camau rhagweithiol i gynorthwyo busnesau bach a chanolig na chânt eu cynrychioli'n ddigonol i fod yn rhan o sectorau a allai dyfu yn y dyfodol.
- Sicrhau bod pobl ifanc mewn addysg cyn-16 yn dod i gysylltiad ystyrlon â chyflogwyr lleol a darparwyr addysg dechnegol, fel eu bod yn deall yn well bod prentisiaethau yn llwybr hyfyw at swyddi a'u bod yn llwybr sy'n gydradd â llwybrau prifysgol. Yn Lloegr, bydd angen i ddeddfwriaeth ynghylch mynediad i ddarparwr gael ei gorfodi'n ddigonol, a cheir achos posibl dros gyflwyno mesurau cyfatebol yng ngweddill y DU ac Iwerddon.
- Sicrhau bod pob llwybr yn cael yr un bri, drwy adolygu'r ffyrdd y caiff llwybrau technegol eu rhoi dan anfantais tra caiff ysgolion gymhellion i hyrwyddo cymwysterau Safon Uwch.
- Mynd i'r afael â'r prinder addysgwyr medrus ym maes prentisiaethau, er mwyn sicrhau darpariaeth o safon o ran prentisiaethau, a mynd i'r afael â'r prinder athrawon ffiseg mewn ysgolion, sy'n ddifrifol.
- Cymryd camau pendant i chwalu stereoteipiau ynghylch ffiseg, gwyddoniaeth a phrentisiaethau, sy'n cynnwys gwneud cynlluniau tegwch ysgol gyfan yn orfodol ym mhob ysgol a meithrinfa.
- Gwella gwaith casglu data ynghylch y cynnydd y mae prentisiaid yn ei wneud a'r mannau y maent yn eu cyrraedd, er mwyn sicrhau bod y systemau'n wirioneddol gynhwysol ac yn wirioneddol agored i bawb ac er mwyn llywio polisi a chamau gweithredu.



## Cyflogwyr prentisiaid a darparwyr addysg a hyfforddiant

Mae anghenion diwydiannau lleol ac anghenion lleol o ran cyflogaeth yn dylanwadu'n fawr ar brentisiaethau, ac mae'r graddau y mae prentisiaethau'n cael eu paru â'r galw yn lleol yn amrywio'n sylweddol o'r naill ranbarth i'r llall. Gall cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant chwarae rôl sylweddol yn y gwaith o fynd i'r afael â rhai o'r heriau yn y maes hwn. Mae cyfleoedd yn debygol o gynnwys y canlynol:

- Camau i lunio partneriaethau yn eu hardaloedd er mwyn creu atebion ystyrlon i brinder sgiliau, creu cymwysterau addas i'w diben o ran prentisiaethau, a hybu eu llwyddiant. Gallai hynny gynnwys rôl fwy helaeth ar gyfer cynghreiriau lleol neu ranbarthol o fusnesau llai sy'n gweithio gyda'i gilydd i rannu'r gorbenion gweithredu cysylltiedig.
- Cyflogwyr yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol o ran prentisiaethau a llwybrau lleol o ran gyrfa, gan dargedu prentisiaid posibl a'r sawl sy'n dylanwadu ar eu penderfyniadau.


## Mae'r Sefydliad Ffiseg

**Fel y corff proffesiynol a'r gymdeithas ddysgedig ar gyfer ffiseg yn y DU ac Iwerddon, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt helpu i sicrhau bod ffiseg a llwybrau sy'n ymwneud â ffiseg yn hygyrch i bawb. Rydym mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y sefyllfa hon ochr yn ochr â'n rhwydweithiau, ac i estyn allan er mwyn helpu i fynd i'r afael â llawer o'r problemau hyn. Ar hyn o bryd, rydym:**

- Yn gweithio drwy ein hymgyrch Torrwch y Ffiniau i fynd i'r afael â chamsyniadau am ffiseg, a stereoteipiau ynghylch pwy all astudio ffiseg, sy'n golygu bod pobl ifanc o grwpiau na chânt eu cynrychioli a'u gwasanaethu'n ddigonol yn y gymuned ffiseg yn dewis peidio ag astudio ffiseg.
- Yn hyrwyddo dewisiadau gwybodus ynghylch llwybrau academaidd a thechnegol ac yn dadlau bod gyrfaoedd yn ymwneud â ffiseg yn talu'n dda ac yn rhoi llawer o foddhad, drwy ariannu 'Planet Possibility', sef menter sy'n cynnig cyngor am yrfaoedd.
- Fel y pwysleisiwyd yn ein glasbrint ynghylch ymchwil a datblygu, rydym yn cefnogi'r gred hollbwysig bod mannau croesawgar a chynhwysol ar gyfer dysgu a gweithio'n hanfodol o safbwynt creu gweithlu ymchwil a datblygu llewyrchus ac amrywiol ym maes ffiseg ac o safbwynt datgloi twf a ffyniant economaidd.
- Yn gweithio'n ddiflino i gynyddu nifer yr athrawon ffiseg arbenigol a chynyddu mynediad i addysg arbenigol o safon – gan ennyn brwdfrydedd ynghylch ffiseg a llwybrau'n ymwneud â ffiseg ymhlith myfyrwyr ar ôl iddynt droi'n 16 oed.

**Bydd lansio'r adroddiad hwn yn cychwyn cyfres o uwchgynadleddau cenedlaethol o amgylch y DU ac Iwerddon er mwyn dechrau sgwrs â llywodraethau, darparwyr addysg, a chyflogwyr am ddatblygu gweledigaeth newydd ar gyfer prentisiaethau'n ymwneud â ffiseg, mewn partneriaeth a gyda chwistrelliad newydd o egni. Bydd hefyd yn galluogi'r Sefydliad Ffiseg i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gyfoethog ar gyfer polisi a gweithgarwch pellach. Wrth symud ymlaen, bydd y Sefydliad Ffiseg:**

- Yn manteisio ar ein pŵer cynnull ni a phŵer cynnull ein partneriaid i gryfhau cysylltiadau rhwng busnesau a yrrir gan ffiseg a rhanddeiliaid rhanbarthol mewn lleoedd penodol, sydd â rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt sbarduno galw, hyrwyddo ansawdd a chefnogi'r gwaith o ddarparu prentisiaethau'n ymwneud â ffiseg a llwybrau technegol eraill.
- Yn creu partneriaethau â chyrff cysylltiedig sy'n gweithio ym maes STEM, ac yn benodol â sectorau cyfoethog o ran ffiseg (gan gynnwys y sector peirianneg a'r sector gweithgynhyrchu uwch), er mwyn mynd i'r afael â'r heriau systemig sy'n atal y prentisiaethau hyn rhag datblygu.
- Yn gweithio gydag awdurdodau cenedlaethol a rhanbarthol i sicrhau bod cyfraniad ffiseg, ac yn benodol llwybrau technegol sy'n ymwneud â ffiseg, yn cael ei gydnabod mewn strategaethau sgiliau a chynlluniau statudol rhanbarthol a chenedlaethol.



## ‘Cyflogwyr yn ymgysylltu’n rhagweithiol ag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol o ran prentisiaethau a llwybrau lleol o ran gyrfa, gan dargedu prentisiaid posibl a’r sawl sy’n dylanwadu ar eu penderfyniadau’



Mae'r Sefydliad Ffiseg yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 293851)
a'r Alban (rhif SC040092).

iop.org

Y Sefydliad Ffiseg yw'r corff proffesiynol a'r gymdeithas ddysgedig ar gyfer ffiseg yn y DU ac Iwerddon, ac mae'n chwarae rôl weithredol o safbwynt hyrwyddo cydweithio ym maes ffiseg o amgylch y byd. Rydym yn ceisio sicrhau bod ffiseg yn hygyrch i bobl o bob cefndir. Mae ein 22,000 o aelodau yn arddangos eu harbenigedd proffesiynol ym maes ffiseg mewn lleoliadau sy'n amrywio o ysgolion, prifysgolion a chyfleusterau ymchwil cenedlaethol i fusnesau o bob maint, ac mewn swyddi amrywiol tu hwnt megis swyddi athrawon, ymchwilwyr, prentisiaid, technegwyr, peirianwyr a datblygwyr cynnyrch.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2023